



THE NATIONAL
LOTTERY



NETWORK

DELIVERED BY



Rôl:	Cydlynnydd Project
Sefydliad:	Ffilm Cymru Wales
Contract:	Contract gwasanaethau llawrydd
Lleoliad:	Gweithio o adre, swyddfa Ffilm Cymru yn Tramshed Tech, Caerdydd, ac amryw o leoliadau cyfarfod, fel sy'n berthnasol.
Cyfnod:	Dechrau cyn gynted â phosib; gweithio tuag at 3 dyddiad hyfforddiant tuag at ddiwedd mis Tachwedd / dechrau mis Rhagfyr a gwaith cydlynu a gwerthuso prosiect parhaus hyd at fis Chwefror 2020.
Ffi:	Tua 30 diwrnod ar gyfradd diwrnod o £150 (yn cynnwys TAW). Oriau gweithio hyblyg ond bydd disgwyl iddynt fod yn fwy dwys yn y cyfnod a fydd yn arwain at y dyddiadau hyfforddiant craidd (Hydref/Tachwedd/Rhagfyr 2019). Caiff taliad ei wneud bob mis drwy anfoneb yn erbyn y nifer o ddiwrnodau a weithiwyd. Cap o £4,500 ar gyfanswm y ffi.

Dyddiad cau derbyn cais: 17:00 dydd Gwener 6^{ed} Medi 2019

CEFNDIR

Mae **Ffilm Cymru Wales** wedi ymrwymo i hybu sector ffilm cynhwysol a diwylliant ffilm sy'n fuddiol i bobl ledled Cymru. Gweithiwn ar draws cadwyn gyflenwi'r sector, gan gefnogi gwaith datblygu ffilmiau, cynhyrchu, sinemâu, gwyliau ffilm ac addysg ffilm a'r cyfryngau, a chynnig cyngor, cyllid, datblygu sgiliau ac eiriolaeth.

I gael mwy o wybodaeth ewch i www.ffilmcymruwales.com

PRIF DDIBEN Y RÔL

Mae Ffilm Cymru yn chwilio am Gydlynnydd Prosiect llawrydd i reoli'r gwaith logisteg a gweinyddu ar gyfer cwrs hyfforddiant sy'n cynnig ymwybyddiaeth iechyd meddwl a chymorth dilynol y mae cynhyrchwyr a Phenaethiaid Adrannau sy'n gweithio yn y diwydiannau ffilm a theledu yn ymgymryd ag ef gydag arbenigydd iechyd meddwl.

Caiff y cwrs ei ariannu ar y cyd gan ScreenSkills a Ffilm Cymru drwy fenter RHWYDWAITH BFI Cymru. Bydd Cydlynnydd y Prosiect yn adrodd i Reolwr RHWYDWAITH BFI Cymru wrth gydlynu gwaith hyrwyddo, cyflawni a chasglu data yn ymwneud â'r cwrs.

Caiff y cwrs ei gynnal yng Nghaerdydd, wedi'i gyflenwi'n Saesneg gyda chyfieithiad Cymraeg ar gael ar gais, a chaiff ei farchnata i gyfranogwyr wedi'u targedu ledled Cymru drwy Ffilm Cymru a rhanddeiliaid a phartneriaid perthnasol. Caiff digwyddiad cyflwyno cychwynnol am ddim, yn ymwneud â Llesiant, Cydnerthedd a Gwrth-Fwlio ac Aflonyddu yn y diwydiannau sgrin, ei drefnu mewn partneriaeth â BAFTA tuag at ddiwedd mis Tachwedd.

Bydd lle i 20 o gyfranogwyr ar y rhaglen ddeuddydd o hyfforddiant craidd, a'r disgwyl yw y caiff ei gynnal tuag at ddechrau mis Rhagfyr 2019. Bydd gofyn i ddarpar gyfranogwyr gyflwyno datganiad o ddiddordeb i ddod i'r cwrs, a chaiff y rhain eu hasesu gan Gydlynnydd y Prosiect ar sail angen. Bydd

cost i dderbyn yr hyfforddiant, a bydd cymorth bwrsariaeth ar gael i'r sawl sy'n wynebu angen y mae modd ei ddangos am gymorth ariannol tuag at deithio, gofal plant neu ffioedd y cwrs.

Yn dilyn yr hyfforddiant craidd, bydd gan y cyfranogwyr gyfle i ddilyn ymlaen gyda'r arweinydd cwrs dynodedig drwy sesiwn un-i-un.

AMSERLEN

Noder y gall y dyddiadau newid.

- Medi/Hydref 2019 – Cydlynnydd y Prosiect yn cychwyn
- Mis Hydref 2019 – cynllunio digwyddiadau; trefnu lleoliadau a darparwyr hyfforddiant
- Tachwedd 2019 – galw am ddatganiadau o ddiddordeb i ddod i'r cwrs; marchnata ac allgymorth i hyrwyddo
- Dydd Sadwrn 23ain Tachwedd 2019 (*union ddyddiad i'w gadarnhau*) – un diwrnod o ddigwyddiad cyflwyno ar lesiant a chydnerthedd yn y diwydiannau ffilm a theledu, wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth â BAFTA
- Tuag at ddiwedd Tachwedd 2019 – cadarnhau lle i 20 o gyfranogwyr
- Yn gynnar ym mis Rhagfyr 2019 – Deuddydd o hyfforddiant craidd, wedi'i gyflenwi gan ddarparwr hyfforddiant iechyd meddwl arbenigol
- Chwefror 2020 – Sesiynau dilynol un-i-un gydag arweinydd y cwrs
- Mawrth 2020 – Gwerthusiad cwrs cyflawn i'w gyflwyno i'r cyllidwyr

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

Bydd y Cydlynnydd yn gweithio gyda Rheolwr RHWYDWAITH BFI Cymru, Alice Whittemore, i oruchwylio gwaith recriwtio'r rhaglen (gan drafod gyda chynghorwyr hyfforddiant, cyfranogwyr a chyfleusterau) a sicrhau bod yr hyfforddiant dilynol yn cael ei gyflawni'n effeithiol, ynghyd ag adborth gwerthuso.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus wneud y canlynol:

- Llundio cynllun marchnata ac allgymorth i ddenu darpar gyfranogwyr i'r cwrs mewn cyswllt â Rheolwr Cyfathrebu Ffilm Cymru, gan roi ystyriaeth i'r cyfrifoldeb o recriwtio amrywiaeth o gyfranogwyr sy'n adlewyrchu poblogaeth Cymru.
- Ymateb i unrhyw ymholiadau gan ddarpar ymgeiswyr (drwy ffôn ac e-bost) yn ystod y broses recriwtio, y bydd gofyn iddynt gyflwyno datganiad o ddiddordeb er mwyn cael eu hystyried i ddod i'r cwrs.
- Prosesu ac asesu datganiadau o ddiddordeb, gan sicrhau bod y cyfranogwyr a gaiff eu dethol yn bodloni'r targedau recriwtio a gaiff eu gosod gan ein cyllidwyr, ScreenSkills.
- Cysylltu a thrafod gyda'r cyfranogwyr yn y cyfnod cyn y cwrs a chyflenwi gwybodaeth am gymorth bwrsariaeth.

- Sicrhau lleoliad priodol i'r hyfforddiant a chynnal cyfathrebu dilynol ynglŷn â phob mater yn ymwneud â mynediad, asesu risg, gofynion arlwy, gosodiadau technegol, cyfieithu ac ati.
- Trefnu a chadw cofnodion cyfarfodydd a galwadau cynadleda gyda phartneriaid y prosiect a chynghorwyr hyfforddiant drwy gydol cyfnod cynllunio'r prosiect; dosbarthu gwybodaeth lle y bo angen.
- Gweithio'n unol â chyllideb a gytunwyd ar gyfer y prosiect, gan gynnwys costau lleoliadau, arlwy, bwrsariaethau ac ati, a thrafod gydag adran gyllid Ffilm Cymru i ofyn am daliadau cysylltiedig.
- Rheoli'r gwaith o gyflawni'r rhaglen hyfforddiant, gan sicrhau ei bod yn rhedeg yn unol â'r amserlen a'r gyllideb ac yn cyflawni amcanion cyllido eraill a gaiff eu gosod gan ScreenSkills.
- Darparu adroddiadau cynnydd a chostau rheolaidd i Reolwr RHWYDWAITH BFI Cymru a'r Pennaeth Cynhyrchu, a fydd yn bwydo i mewn i'r adroddiad chwarterol y bydd angen ei gyflwyno i gyllidwyr y prosiect, ScreenSkills.
- Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymorth gan gymheiriaid rhwng cyfranogwyr y rhaglen, gan annog rhwydweithio fel cyfathrebu ar-lein (blogiau / grŵp Facebook / cyfraniadau Twitter) mewn cyswllt â Rheolwr Cyfathrebu Ffilm Cymru.
- Cydlynu cyfarfodydd unigol dilynol rhwng cyfranogwyr y prosiect ac arweinydd y cwrs ym mis Ionawr a mis Chwefror 2020.
- Llunio adroddiad gwerthuso'r prosiect yn dilyn y cyfnod hyfforddiant craidd, gan gynnwys cydgrynhoi adborth dienw gan gyfranogwyr a phartneriaid cyllido ar yr hyfforddiant a myfyrio'n wrthrychol ar ffyrdd i fireinio a gwella'r rhaglen i'r dyfodol.

MANYLEB Y PERSON

- Cyfathrebydd dymunol ac effeithiol.
- Gallu y mae modd ei ddangos i gydlynu amserlenni a chyllidebau'n llwyddiannus.
- Llygad am fanylion a chywirdeb, a sgiliau cryf o ran cadw cofnodion, rheoli data ac adrodd.
- Sensitifrwydd a dealltwriaeth y mae modd eu dangos yn ymwneud ag iechyd meddwl, a pharodrwydd i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant diogelu perthnasol ar y pwnc.
- Mae profiad blaenorol ym maes digwyddiadau a/neu farchnata ac ymgyrchoedd allgymorth yn ddymunol.
- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiannau sgrin a/neu weithio'n llawrydd yn ddymunol, ond nid yn hanfodol.
- Mae bod yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg yn ddymunol / nid yn hanfodol.

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Mae Ffilm Cymru wedi ymrwymo i wella amrywiaeth a chynhwysiant y sector ffilm a chynulleidfaoedd ffilm yng Nghymru ac ymgymryd â'r ymrwymiad hwnnw mewn perthynas â'n harferion recriwtio a staffio.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth, ein Cynllun Iaith Gymraeg a Chynllun Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [i'w gweld fan hyn](#).

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallai pob ymgeisydd hefyd lenwi ein ffurflen monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fan hyn.

Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ein gweithlu. Ni fyddwn yn rhannu unrhyw elfen o'ch data personol gyda thrydydd partïon. Caiff y wybodaeth a ddarperwch ei gwneud yn ddiennw a'i phrosesu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Cadwn ddata am 1 flwyddyn ac wedyn caiff ei ddinistrio'n ddiogel, gan gadw dadansoddiad wedi'i gydgrynhoi'n unig nad yw'n cynnwys manylion personol.

CEISIADAU / DYDDIAD CAU

Anfonwch eich CV drwy e-bost, ynghyd ag e-bost eglurhaol yn amlinellu eich profiad a'ch sgiliau yn erbyn yr hyn sydd wedi'i fanylu uchod, pam fod gennych ddiddordeb yn y rôl a phryd fyddech ar gael i gychwyn.

Dylai ceisiadau gael eu cyfeirio at Alice Whittemore a'u hanfon i: alice@ffilmcymruwales.com.

Dyddiad cau derbyn ceisiadau yw **5pm ar Ddydd Gwener 6^{ed} Medi 2019**.

Caiff cyfweiliadau eu cynnal ar 10 Medi yn swyddfeydd Ffilm Cymru yng Nghaerdydd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â dod i'r cyfweiliad.

Fel defnyddwyr y Cynllun Hyderus o ran Anabledd, rydym yn sicrhau y byddwn yn cyfweled â phob ymgeisydd anabl sy'n bodloni meini prawf angenrheidiol y swydd.

